# Yr ASB yn cymeradwyo cymhwyster Cymhwysedd Proffesiynol mewn Bwyd Anifeiliaid

Mae'r ASB, mewn partneriaeth â'r Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI) yn cymeradwyo'r cymhwyster Cymhwysedd Proffesiynol mewn Bwyd Anifeiliaid sy'n ymdrin â'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â bwyd anifeiliaid ar bob cam, gan gynnwys cynhyrchu cynradd, gweithgynhyrchu a dosbarthu, ochr yn ochr â'r fframwaith ar gyfer y rheoliadau rheolaethau swyddogol sy'n llywodraethu iechyd anifeiliaid ac iechyd y cyhoedd.

Mae'r cwrs yn para chwe mis ac yn cynnwys cymysgedd o addysgu ar-lein, diwrnodau hyfforddi a diwrnodau asesu. Mae'r cymhwyster yn addas ar gyfer ymgeiswyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

**Dywedodd Karen McCloskey, Pennaeth Safonau Cyflawni yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd:**

> 'Bydd y cymhwyster galwedigaethol newydd hwn yn helpu i hybu nifer y swyddogion hyfforddedig sydd ar gael i gynnal rheolaethau swyddogol ar fwyd anifeiliaid.
>
> 'Rydym yn chwilio'n barhaus am gyfleoedd i gefnogi llwybrau newydd, hyblyg a chynhwysol at y maes rheoleiddio bwyd a bwyd anifeiliaid, a fydd yn helpu i gynnal cyflenwad o swyddogion a fydd yn gweithio i gadw bwyd a bwyd anifeiliaid yn ddiogel, a gwneud yn si?r bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.
>
> 'Hoffwn ddiolch i'r CTSI, ei bartneriaid awdurdod lleol a phawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r cymhwyster hwn, am eu hymroddiad i gynnal safonau proffesiynol uchel yn y sector.'

**Dywedodd John Herriman, Prif Weithredwr y Sefydliad Safonau Masnach Siartredig (CTSI):**

> 'Mae CTSI yn falch ein bod wedi gallu gweithio gyda'r ASB i gyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd a fydd yn caniatáu i bobl ennill cymhwysedd bwyd anifeiliaid drwy gymhwyster annibynnol. Mae'n bleser gallu ychwanegu'r elfen newydd hon o hyblygrwydd i gyflwyno mwy o bobl i'r swyddogaeth reoleiddiol bwysig hon. Rydym yn falch iawn o gyflwyno'r cymhwyster hwn ac rydym yn edrych ymlaen at groesawu myfyrwyr newydd i'r cymhwysedd bwyd anifeiliaid. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r ASB ar gymhwyster cyfatebol mewn cymhwysedd bwyd dros y flwyddyn nesaf.'